

Datblygiad plant

Darllen pellach ar ddamcaniaethau dysgu

Froebel (1782 i 1852)

Mae theori Froebel yn seiliedig ar rôl yr athro fel un sy'n cynorthwyo'r plentyn wrth iddo ddarganfod pethau. Honnodd fod dysgu effeithiol yn digwydd trwy gyfrwng rhyngweithio rheolaidd rhwng y plentyn â'r byd.

Credai fod bodau dynol yn fodau creadigol yn eu hanfod a bod chwarae'n helpu i hwyluso mynegiant creadigol. Dylai lleoliadau blynyddoedd cynnar fod yn amgylcheddau lle gall plant gyrraedd eu potensial creadigol llawn o dan arweiniad amddiffynnol a rhyngweithiol oedolyn. Roedd meithrinfa Froebel yn ennyn diddordeb plant mewn dysgu o fewn grŵp ac yn darparu defnyddiau at ddefnydd dychmygus yn hytrach na defnydd ymarferol. Credai Froebel y dylai meithrin y dychymyg a pherthynas gymdeithasol ddigwydd cyn ehangu deallusrwydd.

Dewey (1859 i 1952)

Roedd Dewey yn un o sylfaenwyr mudiad athronyddol o'r enw pragmatiaeth ac yn ddamcaniaethwr allweddol y mudiad blaengar ym myd addysg. Fel Froebel, credai Dewey fod profiad dydd i ddydd plentyn yn hanfodol i ddysgu ac y dylai'r cwricwlwm ymwneud â bywydau plant. Roedd y syniad hwn yn ymbellhau oddi wrth yr awdurdodaeth a'r dysgu ar y cof a oedd ar waith ar y pryd. Awgrymodd fod meddwl plentyn yn tyfu trwy gymryd rhan yn gymdeithasol, sef prif ddiben ysgol. Teimlai nad oes angen gweithgareddau ar blant i ddysgu oherwydd bod ganddynt eu tueddiadau mewnol eu hunain tuag at weithredu. Yn olaf, dadleuodd Dewey na ddylai addysg ymwneud â pharatoi ar gyfer y dyfodol yn unig. Roedd o'r farn y dylai addysg ganolbwyntio ar bwysigrwydd byw yn y presennol.

Montessori (1870 i 1952)

Credai Montessori ym mhowsigrwydd y synhwyrdd wrth feithrin annibyniaeth y plentyn. Cytunodd â Dewey fod gan blant nod naturiol i ddysgu. Yn ei llyfr, *The Secret of Childhood*, ysgrifennodd, "When a new being comes into existence, it contains within itself mysterious guiding principles, which will be the source of its work, character, and adaptation to its surroundings." Mewn rhai ffyrdd, roedd ei syniadau'n crwydro oddi wrth syniadau damcaniaethwyr eraill. Dadleuodd mai dim ond trwy ddatblygu deallusrwydd y gall y dychymyg a chydberthnasau cymdeithasol ddod i'r amlwg. Pwysleisiodd ryddid o fewn amgylchedd wedi ei strwythuro.

Piaget (1896 i 1980)

Mae damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget yn canolbwyntio ar gamau twf ac ar allu plentyn i gaffael gwybodaeth yn raddol. Credai fod plant yn datblygu oherwydd eu rhyngweithio personol. Disgrifiodd Piaget gaffael gwybodaeth trwy ddefnyddio sgemâu – sef brics adeiladu sy'n sylfaen ymddygiad deallus, fel dull o drefnu gwybodaeth. Yn wir, ffordd dda o feddwl am sgemâu yw fel 'unedau' gwybodaeth, pob un yn ymwneud ag un agwedd ar y byd, gan gynnwys gwrthrychau, gweithredoedd a chysyniadau haniaethol (h.y. damcaniaethol).

Datblygiad plant

Vygotsky (1896 i 1934)

Roedd gan Vygotsky sawl damcaniaeth ddysgu gan gynnwys:

- parth datblygiad procsimol (*zone of proximal development (ZPD)*) – y maes deall sydd ychydig y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei wybod yn barod, ond yn faes sydd o fewn eu gallu i ddysgu amdano
- arall mwy gwybodus (*more knowledgeable other (MKO)*) – y person sy'n gwneud yr addysgu, rhiant/gofalwr neu athro
- sgaffaldio – fframwaith a ddarperir er mwyn rhoi cymorth i feithrin dealltwriaeth, ac sy'n cael ei ddileu wrth i hyder gael ei fagu
- theori dysgu cymdeithasol – y broses lle mae plant yn symud o feddwl ar goedd i ddefnyddio lleferydd mewnol i ddysgu.

Er na chafodd fawr o effaith ar ddysgu bryd hynny, daeth ei waith i'r amlwg yn y 1970au a'r 1980au a gwnaed defnydd pellach o lawer o'i waith.

Erikson (1902 i 1994)

Mae theori datblygiad seicogymdeithasol Erikson yn ystyried effaith ffactorau allanol, rhieni/gofalwyr a chymdeithas ar ddatblygiad personoliaeth o gyfnod plentynod i gyfnod oedolaeth. Yn ôl theori Erikson, rhaid i bob person fynd trwy gyfres o wyth cam cydberthynol yn ystod y cylch bywyd cyfan.

Y camau sydd fwyaf perthnasol i'n grŵp oedran yw:

- Ymddiriedaeth yn erbyn Drwgdybiaeth: Babandod (tua 2 flwydd oed ac iau) – 'gobaith' yw'r rhinwedd a'r berthynas bwysig yw'r un gyda'r fam/prif ofalwr a'r cwestiwn dirfodol yw 'A allaf i ymddiried yn y byd?'
- Ymreolaeth yn erbyn Cywilydd/Amheuaeth: Plant bach (tua 2–4 mlwydd oed) – 'ewyllus' yw'r rhinwedd a'r berthynas bwysig yw'r un gyda'r fam/prif ofalwr a'r cwestiwn dirfodol yw 'Ydy hi'n iawn i mi fod yn fi fy hun?'
- Blaengarwch yn erbyn Euogrwydd: Plentynod cynnar (tua 5–8 mlwydd oed) – 'diben' yw'r rhinwedd a'r berthynas bwysig yw'r un gyda theulu a'r cwestiwn dirfodol yw 'A yw'n iawn i mi wneud, symud a gweithredu?'
- Gweithgarwch yn erbyn Israddoldeb: Plentynod canol (tua 9–12 mlwydd oed) – 'cymhwysedd' yw'r rhinwedd a'r berthynas bwysig yw'r un gyda chymdogion a'r ysgol a'r cwestiwn dirfodol yw 'A allaf i lwyddo ym myd pobl a phethau?'

Rogers (1902 i 1987)

Datblygodd Rogers agwedd ddyneiddiol tuag at ddysgu. Datblygwyd dyneiddiaeth i gyferbynnu â gwybyddiaeth ac ymddygiadaeth. Dyneiddiaeth oedd sail gwaith Rogers a Maslow. Mae safbwyntiau allweddol dyneiddiaeth fel a ganlyn.

- Mae gan bobl awydd naturiol i ddysgu er mwyn cyflawni hunan-wireddiad (gweler theori Maslow uchod).
- Nid y deiliant yw'r rhan bwysicaf o addysg, ond y broses o ddysgu.
- Dylai'r plant eu hunain reoli eu dysgu a dylid ei gyflawni drwy arsylwi ac archwilio.
- Dylai'r athro fod yn fodel rôl sy'n annog plant, gan eu hysgogi, eu harwain a'u cynorthwyo ar eu taith personol eu hunain.

Datblygiad plant

Mae Rogers yn ystyried yr athro fel hwylusydd i ddysgu yn hytrach na rhywun sy'n cyfleu gwybodaeth yn unig. Mae'n gweld athro yn llwyddo os yw'n gallu adeiladu perthynas gadarnhaol â phlant.

Bowlby (1907 i 1990)

Mae theori ymlyniad Bowlby yn awgrymu bod plant yn dod i'r byd wedi eu rhaglennu'n fiolegol i ffurfio ymlyniad ag eraill, oherwydd bydd hyn yn eu helpu i oroesi. Mae gan blentyn angen cynhenid (h.y. yn enedigol) i gysylltu ag un prif ffigur ymlyniad.

Awgryma Bowlby fod cyfnod tyngedfennol ar gyfer datblygu ymlyniad (2.5 mlynedd). Os nad yw ymlyniad wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn, yna mae'n ddigon posib na fydd yn digwydd o gwbl. Yn ddiweddarach, cynigiodd Bowlby gyfnod sensitif o hyd at 5 mlynedd.

Mae damcaniaeth amddifadedd mamol Bowlby yn awgrymu y gallai tarfu parhaus ar yr ymlyniad rhwng y baban a'r prif berson sy'n gofalu amdano arwain at anawsterau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol hirdymor i'r baban hwnnw.

Yn ôl Bowlby, mae model gweithio mewnol yn fframwaith gwybyddol sy'n cynnwys cynrychioliadau meddyliol ar gyfer deall y byd, yr hunan ac eraill, ac mae'n seiliedig ar y berthynas â pherson sy'n darparu gofal sylfaenol. Mae'n datblygu'n brototeip ar gyfer pob perthynas gymdeithasol yn y dyfodol ac yn caniatáu i unigolion ragweld, rheoli a llywio eu rhyngweithio ag eraill.

Maslow (1908 i 1970)

Ysgrifennodd Maslow hierarchaeth o anghenion y mae plant yn symud ymlaen drwyddi, h.y. set o anghenion dilyniannol o anghenion ffisiolegol i hunan-wireddu. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r lefelau, maent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hamgylchedd dysgu ac mae ganddynt fwy o hyder i ymdrechu'n galetach.

Mae'n bwysig nodi y bydd plant ar wahanol lefelau mewn unrhyw grŵp, ac efallai na fydd rhai plant yn cyflawni'r lefelau is gartref. Felly, mae'n hynod bwysig sicrhau bod y plant hyn yn teimlo'n ddiogel, gan y byddant yn ei chael hi'n anodd iawn symud i'r lefelau uwch.

Mae theori Maslow yn perthyn yn agosach i adeiladu cydberthynas rhwng yr athro a'r plentyn yn hytrach na strwythur gwersi neu gwricwlwm. Gallwch chi feddu ar yr adnoddau gorau a chynllunio gwersi sydd gyda'r gorau, ond os nad ydych chi'n dangos brwdfrydedd, angerdd ac empathi, bydd hi'n anodd iawn i'ch plant deimlo bod eu hanghenion wedi'u diwallu.

Gagné (1910 i 2002)

Fe luniodd Gagné ddadansoddiad o amcanion dysgu a sut mae'r gwahanol amcanion yn gofyn am ddulliau addysgu penodol. Galwodd y rhain yn bum amod ar gyfer dysgu:

- Gwybodaeth lafar
- Sgiliau deallusol
- Strategaethau gwybyddol
- Sgiliau echddygol
- Agweddau.

Er mwyn cyflawni ei bum amod ar gyfer dysgu, credai Gagné y byddai dysgu'n digwydd pan fydd

Datblygiad plant

plant yn symud ymlaen trwy naw lefel o ddysgu ac y dylai unrhyw sesiwn addysgu gynnwys cyfres o ddigwyddiadau o fewn y naw lefel hyn. Y syniad oedd bod y naw lefel o ddysgu yn symbylu'r pum amod dysgu a thrwy hynny, byddai dysgu'n cael ei gyflawni.

O'i ddefnyddio ar y cyd â thacsonomeg Bloom (gweler isod), mae naw lefel dysgu Gagné yn darparu fframwaith y gall ymarferwyr ei ddefnyddio i gynllunio gwersi a themâu. Mae Bloom yn darparu'r gallu i osod amcanion sydd wedi'u gwahaniaethu ac mae Gagné yn rhoi sgaffald i adeiladu gwersi arno.

Bloom (1913 i 1999)

Cynigiodd Bloom dri pharth dysgu — gwybyddol, affeithiol a seicoechddygol. Gweithiodd mewn cydweithrediad â David Krathwohl ac Anne Harrow ar y tri pharth, trwy gydol y 1950au i'r 1970au. Y parth a ddefnyddiwn amlaf, a'r un sy'n cael ei ystyried yn synnwyr cyffredin yn aml, yw theori wybyddol Bloom sy'n troi o amgylch pyramid hierarchaidd — Cofio, Dealltwriaeth, Cymhwyso, Dadansoddi, Synthesis a Gwerthuso. Addaswyd hyn dros y blynyddoedd a chyfnewidwyd safle Synthesis a Gwerthuso ar y pyramid. Mae llawer o hierarchaethau cwestiynu yn defnyddio tacsonomeg Bloom.

Bruner (1915 i 2016)

Ysgrifennodd Bruner am bwysigrwydd rôl yr oedolyn wrth ddefnyddio sgaffald i gynorthwyo'r plentyn i ddatblygu uwch sgiliau dysgu trwy gyfrwng lluniadaeth. Credai Bruner fod:

- plant yn dysgu pan fydd ganddynt oedolyn neu gyfoed cefnogol, sydd â diddordeb ynddynt
- sgaffaldio gan oedolyn yn bwysig ar gyfer dysgu drwy ysgogi cymorth a chefnogaeth pan fydd plant yn wynebu tasgau heriol, a thrwy dynnu'r gefnogaeth honno'n ôl wrth i'w cymhwysedd ddatblygu
- rhaid cyflwyno tasgau i blant mewn ffordd ystyrlon sy'n briodol i'w cam datblygu
- plant yn dysgu trwy ddatrys gwrthdaro gwybyddol.

Cynigiodd y cwricwlwm troellog (cwricwlwm sy'n dychwelyd i'r un themâu dros amser).

Bandura (cyfredol)

Mae theori dysgu cymdeithasol Bandura yn nodi bod unigolion yn datblygu pwy ydynt trwy ffactorau amgylcheddol, sef dynwared modelau rôl.

Awgrymodd Bandura fod plant yn modelu eu hymddygiad trwy wyllo eraill, sef dysgu ar sail arsylwi.

Mae hyn yn digwydd trwy gyfrwng pedwar cam dysgu:

1. Y plentyn yn talu sylw i'r person y mae'n dymuno dynwared ei ymddygiad. Fel rheol, dyma rywun maent yn ei edmygu a rhywun maent yn agos ato.
2. Mae'r plentyn yn cynnal yr ymddygiad y mae wedi talu sylw iddo. Mae hyn yn cynnwys cofio'r gweithredoedd y maent wedi'u harddangos a'r ymatebion a gawsant.
3. Mae'r plentyn yn atgynhyrchu'r ymddygiad hwn gyda'r nod o dderbyn yr un ymateb ag a dderbyniodd eu model rôl; gall hyn gynnwys cael eu derbyn gan eraill.

Datblygiad plant

4. Os yw'r plentyn yn derbyn yr ymateb y mae'n chwilio amdano, bydd yn cael ei ysgogi i ymddwyn fel hyn eto.

Pwysleisiodd Bandura y gellid defnyddio dysgu ar sail arsylwi i egluro pam mae plant ifanc yn dynwared ymddygiad cadarnhaol ac annymunol.

Gellir defnyddio theori dysgu cymdeithasol i egluro pam y gall pobl ifanc ildio i bwysau cyfoedion gan ymddwyn mewn modd sy'n golygu cymryd risg, megis cael rhyw heb ddiogelwch neu yfed alcohol. Os yw person ifanc yn teimlo'n unig ac nad yw'n cyd-daro ag eraill, gallant ddechrau dynwared ymddygiad unigolion sy'n ymddangos yn boblogaidd ac yn cael eu hoffi gan eraill er mwyn iddynt hwythau gael eu derbyn gan eu grŵp cyfoedion.

Mae theori dysgu cymdeithasol yn anwybyddu dylanwad ffactorau biolegol ar ymddygiad a datblygiad, megis rôl hormonau a geneteg.

Gardner (cyfredol)

Astudiodd Gardner o dan Erik Ericson a Jerome Bruner. Roedd yn gweld deallusrwydd fel y gallu i ddatrys problemau neu gynhyrchu pethau sy'n ddefnyddiol mewn un neu fwy o leoliadau diwylliannol.

I ddechrau, enwodd Gardner saith math o ddeallusrwydd — leithyddol, Mathemategol, Cerddorol, Cinesthetig-gorfforol, Gofodol, Rhyngberonol a Mewnberonol.

Awgrymodd mai anaml y mae'r deallusrwydd hyn yn gweithredu'n annibynnol a'u bod yn ategu ei gilydd wrth i blant ddysgu sgiliau newydd a datrys problemau. Ers hynny, mae Gardner wedi ychwanegu wythfed deallusrwydd – Deallusrwydd naturiol.

Er nad yw theori Gardner wedi cael ei derbyn yn eang ym maes seicoleg, bu ymateb cadarnhaol iddi ym myd addysg, yn enwedig yn Unol Daleithiau America.

Kolb (cyfredol)

Cynigiodd Kolb theori dysgu trwy brofiad sy'n cynnwys pedwar cam. Sail y theori yw'r cynsail mai dysgu yw caffael cysyniadau haniaethol y gellir wedyn eu cymhwyso i ystod o senarios.

Mae pob cam yn y cylch yn gam sy'n cynorthwyo ac yn arwain i'r cam nesaf. Cyflawnir y dysgu dim ond os yw'r pedwar cam wedi'u cwblhau; fodd bynnag, gall plentyn deithio o amgylch y cylch sawl gwaith, gan fireinio ei ddealltwriaeth o'r pwnc ymhellach. Nid oes unrhyw un cam yn strategaeth ddysgu effeithiol ar ei phen ei hun, e.e. os yw'r cam arsylwi myfyriol yn cael ei hepgor, gallai'r plentyn barhau i wneud yr un camgymeriadau.

Laevers (cyfredol)

Sylwodd Laevers fod plant ifanc yn ymgolli'n rheolaidd yn yr hyn y maent yn ei wneud ac mae'n argyhoeddedig fod plentyn sydd ynghlwm wrth rywbeth neu'n rhan ohono yn ennill profiad dysgu hirdymor dwfn, dwys a llawn cymhelliant. Mae'n seilio ei ddamcaniaethau ar y ragdybiaeth bod y dysgu mwyaf cynhyrchiol, beth bynnag yw ein hoedran, yn digwydd pan fyddwn yn gymaint rhan

Datblygiad plant

o rywbeth nes ein bod yn ymgolli'n lan ynddo. Gallwn fesur prosesau a chyflawniadau plant ifanc iawn wrth iddynt ddysgu yn eu blynyddoedd cynnar, mewn ffyrdd eraill yn hytrach nag edrych ar ddeilliannau. Lluniodd Raddfa Cyfranogiad Leuven, sef dull o fesur cyfranogiad plant mewn profiad/amgylchedd. Fodd bynnag, defnyddiwyd y raddfa ar adegau i asesu plant er mai ei phrif swyddogaeth oedd cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu darpariaeth. Ers hynny, mae'r raddfa hon wedi'i datblygu i Raddfa Lles Leuven ar gyfer mesur lles plant ac iechyd emosiynol.

Siemens and Downes (cyfredol)

Cynigiodd Siemens a Downes ddamcaniaeth ar sail cysylltedd. Dyma un o'r damcaniaethau dysgu addysgol mwyaf newydd. Mae'n canolbwyntio ar y syniad fod pobl yn dysgu ac yn tyfu pan fyddant yn ffurfio cysylltiadau. Gall hyn fod yn gysylltiadau â'i gilydd, neu'n gysylltiadau â'u rolau a'u rhwymedigaethau mewn bywyd. Gall hobiau, nodau a phobl i gyd fod yn gysylltiadau sy'n dylanwadu ar ddysgu.

Gall athrawon ddefnyddio cysylltedd yn eu hystafell ddosbarth i helpu plant i wneud cysylltiadau â phethau sy'n eu cyffroi, gan eu helpu i ddysgu. Gall athrawon ddefnyddio cyfryngau digidol i wneud cysylltiadau da a chadarnhaol â dysgu. Gallant helpu i greu cysylltiadau a chydberthnasau â'u dysgwyr a chyda'u grwpiau cyfoedion i helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn llawn cymhelliant i ddysgu.

Fodd bynnag, mae yna lawer o ddadlau ar hyn o bryd ynghylch ai theori ddysgu yw hon mewn gwirionedd neu a yw'n ddim mwy na methodoleg yn yr oes ddigidol hon.

Dweck (cyfredol)

Canfu Dweck fod meddylfryd plant – y modd y maent yn canfod eu galluoedd – yn chwarae rhan allweddol yn eu cymhelliant a'u cyflawniad, ac y byddem yn hybu cyflawniad plant pe byddem yn newid eu meddylfryd. Yn fwy penodol, roedd plant a gredai y gellid datblygu eu deallusrwydd (meddylfryd twf) yn perfformio'n well na'r rhai a gredai fod eu deallusrwydd yn sefydlog (meddylfryd sefydlog). A phan roedd plant yn dysgu trwy gyfrwng rhaglen strwythuredig oedd yn eu galluogi i 'dyfu eu hymennydd' a chynyddu eu galluoedd deallusol, roeddent yn gwneud yn well. Gwelodd hefyd y gallai cael plant i ganolbwyntio ar y broses sy'n arwain at ddysgu (fel gwaith caled neu roi cynnig ar strategaethau newydd) feithrin meddylfryd twf a'r buddion a ddaw yn ei sgil.

Ymhlith y damcaniaethau eraill y byddwch efallai yn dod ar eu traws mae:

- damcaniaeth ar sail yr ymennydd MacLean
- cromlin anghofio Ebbinghaus
- damcaniaeth hunanbenderfyniad Ryan a Deci
- damcaniaeth 70:20:10 McCall
- model bachyn Eyal
- model ar gyfer newid ymddygiad Fogg
- model Addie ar gyfer dylunio deunyddiau addysgol/hyfforddi
- model cadw yn y cof Atkinson a Shiffrin

Datblygiad plant

- damcaniaeth lefelau prosesu Craik a Lockhart
- damcaniaeth cof episodig, semantig a gweithdrefnol Tulving
- damcaniaeth cymhelliant ar sail cynnwrf Hebb
- cof gweithio (*working memory (WM)*) Baddeley a Hitch
- damcaniaeth dysgu cymdeithasol a damcaniaeth wybyddol gymdeithasol Bandura
- diffiniadau Dweck o ddau brif fath o nod: Perfformiad a Meistrolaeth.
- papur Dweck a Leggett 'A Social Cognitive approach to motivation and personality'
- damcaniaeth llwyth gwybyddol Sweller
- damcaniaeth ymaddasu rheolaeth (*adaptive control of thought (ACT)*) Anderson
- damcaniaethau dysgu wedi'i leoli Lave
- damcaniaeth hunan-werth Covington
- diffiniad dysgu hunanreoledig Zimmerman
- crynodeb o gymunedau ymarfer (*communities of practice (CoP)*) Wenger
- damcaniaethau nod Pintrich
- damcaniaeth wybyddol o ddysgu amlgyfrwng Mayer
- damcaniaeth wybyddol–affeithiol dysgu gyda'r cyfryngau Moreno
- model cymhelliant ARCS Keller
- cyfuno'r ymchwil ar theori llwyth gwybyddol (*cognitive load theory (CLT)*) Sweller, Ayres a Kalyuga
- damcaniaeth dysgu cydweithredol ar-lein (*online collaborative Learning (OCL)*) Harasim
- damcaniaeth effaith gymdeithasol ar ddysgu amlgyfrwng Mayer
- damcaniaeth dylunio emosiynol dysgu gyda'r cyfryngau digidol Plass a Kaplan.